PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 17:

# Disgyblu Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 24 Ebrill, 2020 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2023 |

# Ordinhad 17:
# Disgyblu Myfyrwyr

1. Bydd y Senedd, trwy reoliad, yn pennu'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion disgyblu myfyrwyr.

2. Dylid darllen yr Ordinhad hwn ar y cyd â Rheoliad 21

3. Caiff yr Ordinhad hwn ei gymhwyso'n gyfartal i bob myfyriwr mewn ffordd sy'n rhydd o ragfarn mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig neu unrhyw ystyriaeth annheg arall, a bydd y camau a gymerir dan yr Ordinhad hwn yn deg, yn foesegol, yn gymesur ac yn amserol.

4. Bydd gweithdrefn o'r fath yn cynnwys:

    a) Hawl y myfyriwr i gael gwybod am y cyhuddiadau yn ei erbyn a'r cosbau posib;

    b) Hawl y myfyriwr i wneud sylwadau ysgrifenedig a llafar i'r unigolyn neu'r pwyllgor a sefydlwyd o dan y rheoliad i ymdrin â'r achos;

    c) Hawl y myfyriwr i ddod â rhywun arall gydag ef/hi, a all siarad ar ei ran;

    d) Hawl y myfyriwr i alw a holi tystion;

    e) Manylion y cosbau a all y brifysgol eu rhoi os canfyddir bod y myfyriwr yn euog o dorri rheol;

    f) Hawl y myfyriwr i apelio yn erbyn y penderfyniad ac unrhyw gosb ddisgyblu a roddir.